**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, dydd Llun, 15 Gorffennaf 2019**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 18 Gorffennaf, 2019. Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 25 Gorffennaf, 2019. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 26 Gorffennaf, 2019.

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Gwilym O.Jones

**Ymddiheuriadau**: Dim

(10:00a.m. tan 10:55a.m.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2019 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion - Panel Rhiant Corfforaethol**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2019.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Awst, 2019 hyd at fis Mawrth, 2020 gyda’r newid ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Cyfrifon Terfynol Drafft 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi’r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer 2018/19.**<br>• **Nodi’r sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chymeradwyo’r defnydd o, neu gynnydd i gronfeydd wrth gefn unigol fel y nodir yn Atodiad 4 yr adroddiad.**<br>• **Cymeradwyo’r cronfeydd wrth gefn newydd, sy’n gyfanswm o £1.270m fel y gwelir yn Nhabl 3 yr adroddiad.**<br>• **Nodi’r sefyllfa o ran balansau’r ysgolion.**<br>• **Nodi balansau’r CRT fel yr oeddynt ar 31 Mawrth, 2019.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Derbyn y prif ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer 2018/19** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Cronfa'r Degwm**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Cymeradwyo'r cynllun drafft fel sydd ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad a dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio Cyllid i –**<br><br>**• Gwblhau'r trefniadau sy'n angenrheidiol i'r cynllun gael ei gymeradwyo ac i sefydlu'r corff elusennol.**<br>**• Gwneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r cynllun drafft gan y Comisiwn Elusennau neu'r cynghorwyr cyfreithiol er mwyn cwblhau'r broses, ar yr amod nad yw'r newidiadau yn gwrthdaro ag egwyddorion y cynllun drafft. Os bydd unrhyw newid gofynnol yn newid yr egwyddorion a adlewyrchir yn y cynllun drafft, bydd angen cymeradwyaeth bellach gan y Pwyllgor Gwaith cyn i'r newidiadau i'r cynllun gael eu mabwysiadu.**<br><br>**• Gofyn i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 geisio cyngor annibynnol ar sut i gael yr elw mwyaf posib ar fuddsoddiadau o'r tir a'r arian sy'n cael eu dal yn y Gronfa.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo cynllun gweinyddu ar gyfer Cronfa'r Degwm Ynys Môn yn unol â rheoliadau.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Rhaglen Arfor**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cefnogi a gweithredu'r Rhaglen Arfor ar Ynys Môn, ac awdurdodi'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i –** |

| | |
|---|---|
| | **•       Dderbyn y cyllid Arfor gan Lywodraeth Cymru trwy Gyngor Gwynedd a'i ddefnyddio ar weithgareddau cymwys.**<br>**•       Gweithio mewn partneriaeth efo Cyngor Gwynedd neu gynghorau eraill yn yr ardal Arfor i weithredu'r rhaglen**<br>**•       Gweithio mewn partneriaeth â Menter Môn er mwyn gweithredu'r rhaglen Arfor.**<br>**•       Gweithredu rhaglen grantiau o'r Gronfa Arfor i gynlluniau cymwys** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gweithredu'r Rhaglen Arfor ar Ynys Môn** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9   Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro / Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon fod Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2018/19 yn –**<br>**•       Cyfleu sefyllfa gyfredol y Cyngor o ran y modd mae'n darparu ei Wasanaethau Cymdeithasol.**<br>**•       Adlewyrchu'n gywir ei flaenoriaethau gwella ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd am y flwyddyn i ddod.**<br>**•       Adlewyrchu atebolrwydd a chyfrifoldeb y Cyngor mewn perthynas â'i Wasanaethau Cymdeithasol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol yn unol â'r gofyniad statudol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Nac oes. Caiff yr Adroddiad Blynyddol ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w** |

| | |
|---|---|
| | **gymeradwyo ym mis Medi, 2019** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Opsiynau ar gyfer Byw â Chymorth (Anableddau Dysgu)**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro / Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig i ail-dendro'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer y gwasanaeth Byw â Chymorth (Anableddau Dysgu).** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo opsiwn comisiynu ar gyfer darparu'r gwasanaeth Byw â Chymorth (Anableddau Dysgu).** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Tai Cyngor - Datblygu 10 neu fwy o unedau**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo symud ymlaen i ddatblygu cynllun tai cyngor newydd o 10 uned ar safle Marquis, Rhosybol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo cynllun Tai Cyngor newydd Rhosybol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |